University of South Wales
Prifysgol De Cymru

Awgrymiadau ar gyfer Chwiliad Llenyddiaeth

Cam 1: Diffinio'ch cwestiwn, telerau a pharamedrau

Meddyliwch am 'beth yw'ch cwestiwn'?

Torrwch eich cwestiwn i lawr i mewn i dermau chwilio.

Meddyliwch am gyfystyron ar gyfer eich termau chwilio.

Unrhyw gyfyngiadau? Dyddiad/oedran/daearyddiaeth ac ati.

Cam 2: Dewis cronfa ddata

Dewiswch y cronfeydd data/adnoddau perthnasol ar gyfer eich chwiliad.

Cam 3: Awgrymiadau chwilio

Search tip	Operator	When to use it
Ymholiadau brawddegau	**" "**	Yn eich galluogi i chwilio am yr union dermau trwy amgáu'r term chwilio mewn dyfynodau. Mae'r ddogfen hon yn dychwelyd dogfennau sy'n cynnwys yr union frawddegau e.e. "cadwraeth bensaernïol".
Chwiliadau Maes		Chwilio mewn maes penodol o'r ddogfen, er enghraifft y teitl, awdur neu ddyddiad cyhoeddi. Bydd llawer o gronfeydd data yn gadael i chi ddewis meysydd sydd ar gael i chwilio o gwymplen..
Chwiliadau Boolean cymhleth	**A/AC** **NEU** **NID**	Gallwch ddefnyddio un neu fwy o weithredwyr gyda'i gilydd e.e. (dinas NEU trefol NEU tref) AC adfywio. Bydd hyn yn dod o hyd i ddogfennau gydag adfywio ac unrhyw un o'r geiriau dinas, trefol neu tref. 
Chwiliadau Agosrwydd	**e.g. N2 W2**	Dyma ffordd o chwilio am ddau neu fwy o eiriau sy'n digwydd o fewn nifer penodol o eiriau o'i gilydd e.e. Salmon near/3 virus. Mae llawer o amrywiad rhwng cronfeydd data o ran pa symbolau i'w defnyddio, felly gwiriwch adran gymorth y gronfa ddata cyn defnyddio chwiliadau agosrwydd.
Nodchwilwyr	**?**	Disodli llythrennau o fewn gair e.e. byddai wom?n yn dod o hyd i woman a women. Byddwch yn ymwybodol bod cronfeydd data yn tueddu i ddefnyddio gwahanol symbolau ar gyfer byrhau a nodchwilwyr, felly gwiriwch adran gymorth y gronfa ddata cyn i chi ddechrau.
Byrhau	*****	Yn eich galluogi i chwilio am eiriau sy'n rhannu coesyn cyffredin trwy ddefnyddio symbol penodol e.e. byddai cyfrif* yn chwilio am unrhyw air sy'n cynnwys y coesyn cyfrif (e.e cyfrifiadur, cyfrifiadura, cyfrifiant).
Cadw chwiliadau		Mae cadw chwiliadau yn caniatáu ichi ail-redeg chwiliadau yn ddiweddarach, eu diweddaru a chreu rhybuddion e-bost awtomatig ar gyfer erthyglau a chanlyniadau newydd. I gadw chwiliad, crëwch gyfrif gyda'r gronfa ddata.
Penawdau Pwnc	**(Cronfeydd data iechyd YN UNIG)**	Defnyddiwch bennawd pwnc ar gronfeydd data gofal iechyd i fapio'ch termau chwilio i'r termau mynegeio yn y gronfa ddata, i ddychwelyd mwy o niferoedd a chanlyniadau mwy penodol.